
cplll | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Cronfa Bensiynau CLWYD Pension Fund



# Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

# Canllaw i'r Weithdrefn Ddatrys Anghydfod Mewnol

Ebrill 2025

# Tudalen Cynnwys

Beth yw'r Weithdrefn Datrys Anghydfodau Mewnol? .... 3
Cam 1 o'r Weithdrefn Datrys Anghydfodau Mewnol .... 3
Cam 2 o'r Weithdrefn Datrys Anghydfodau Mewnol .... 4
Beth ellir ei apelio? .... 5
Mathau o benderfyniadau gan yr awdurdod gweinyddu .... 5
Mathau o benderfyniadau cychwynnol gan gyflogwyr .... 5
Beth na ellir ei apelio? .... 5
Pwy all gyflwyno ffurflen drwy'r Weithdrefn? .... 6
A ganiateir i rywun wneud cwyn ar fy rhan? .... 6
Pa rym sydd gan benderfyniad cynrychiolydd y Weithdrefn? .... 6
Oedi neu ddiffyg penderfyniad ar gyfer yr achwynydd .... 6
Pwerau dewisol .... 7
Gwybodaeth am ymddeol oherwydd afiechyd .... 7
Penderfyniadau cyflogwyr .... 7
Penderfyniad yr Awdurdod Gweinyddu .... 7
Cysylltu â Chronfa Bensiynau Clwyd .... 7
Cael cymorth o'r tu allan gan gyrff eraill .... 8
HelpwrArian .... 8
Yr Ombwdsmon Pensiynau .... 8



Cronfa Bensiynau CLWYD Pension Fund

## Beth yw'r Weithdrefn DatrysAnghydfodau Mewnol?

Bydd y canllaw hwn yn egluro gweithdrefn apeliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a elwir hefyd yn Weithdrefn Datrys Anghydfodau Mewnol (y Weithdrefn).

Rydym yn eich gwerthfawrogi fel aelod ac yn ymrwymo i ddarparu gwasanaeth graenus i chi. Dyna pam ein bod bob amser yn awyddus i glywed eich barn am ein gwasanaeth; hyd yn oed os yw'r farn honno'n wahanol i'n un ni.

Drwy ddeall pryd a sut rydym wedi gwneud rhywbeth o'i le, gallwn wneud y newidiadau sydd eu hangen i wella'r gwasanaeth i bawb.

Fel arfer, gellir datrys problem yn sydyn drwy gysylltu'n uniongyrchol â'r penderfynwr. Boed hwnnw'n eich cyflogwr ynteu Gronfa Bensiynau Clwyd, efallai bod y penderfyniad yn seiliedig ar wybodaeth anghywir neu gamddealltwriaeth.

Efallai bod modd egluro'r materion dan sylw a'u diwygio mewn ffordd anffurfiol. Datrysir llawer o broblemau fel hyn, felly cadwch hyn mewn cof cyn ichi lenwi ffurflen y Weithdrefn, rhag ofn y gallai arbed amser ichi.

Os na fedrwch chi a'r penderfynwr ddod i gytundeb, gallwch wneud cwyn ffurfiol drwy'r Weithdrefn. Gallwch lawrlwytho ffurflenni'r Weithdrefn o'n gwefan yn yr adran **ffurflenni ac adnoddau**. Fel arall, gallwn anfon ffurflen atoch drwy'r post neu e-bost.

Mae dwy ran i'r Weithdrefn.

## Cam 1 o'r Weithdrefn Datrys Anghydfodau Mewnol

**Dylech lenwi ffurflen Cam 1 o'r Weithdrefn** er mwyn egluro'r hyn yr ydych yn anhapus, yn anfodlon neu wedi'ch tramgwyddo yn ei gylch.

**Wrth ichi lenwi'r ffurflen, dylech gynnwys copi o unrhyw hysbysiad ysgrifenedig rydych wedi'i gael ynglŷn â'r anghytundeb.**

Mae'n rhaid ichi gyflwyno'ch ffurflen Cam 1 **cyn pen chwe mis** ar ôl dyddiad yr hysbysiad o'r penderfyniad, y weithred neu'r anwaith sy'n destun eich cwyn.

Mae gan yr unigolyn penodedig awdurdod i ymestyn y terfyn amser y tu hwnt i chwe mis.

Wedi ichi lenwi eich ffurflen Cam 1, anfonwch hi i **pensiynau@siryfflint.gov.uk** neu drwy'r post i Gronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF.

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi penodi'r unigolyn penodedig isod i ymdrin â Cham 1:

**Yunus Gajra: Cronfa Bensiynau Gorllewin Swydd Efrog**

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr unigolyn penodedig yn ystyried ffeithiau'ch achos ynghyd â rheolau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac unrhyw ddeddfwriaeth arall y mae angen iddo gyfeirio ati. Efallai y bydd arno hefyd angen eich holi chi neu'ch cyflogwr am ychwaneg o fanylion i'w

helpu i ddeall eich apêl. Dylai'r unigolyn penodedig ymateb ichi'n ysgrifenedig cyn pen dau fis wedi derbyn eich ffurflen. Bydd yr ymateb hwnnw naill ai'n rhoi penderfyniad yr unigolyn penodedig ichi neu'n egluro'r rhesymau dros unrhyw oedi a chadarnhau pryd y cewch chi'r penderfyniad.

Cewch fynd â'ch cwyn ymlaen i Gam 2:

- os yw'r unigolyn penodedig heb gyflwyno penderfyniad na llythyr eglurhaol dri mis ar ôl gwneud y cais,
- os nad ydych wedi cael penderfyniad gan yr unigolyn penodedig ar gyfer Cam 1 cyn pen mis ar ôl y dyddiad y dywedodd y byddech yn ei gael, neu
- os ydych wedi cael penderfyniad gan yr unigolyn penodedig a'ch bod yn anghytuno ag ef

## Cam 2 o'r Weithdrefn Datrys Anghydfodau Mewnol

Os dymunwch fynd ymlaen i Gam 2, mae'n rhaid i chi lenwi **ffurflen Cam 2 o'r Weithdrefn** cyn pen chwe mis ar ôl cael y penderfyniad yng Ngham 1.

**Wrth ichi lenwi'r ffurflen, dylech gynnwys copi o unrhyw hysbysiad ysgrifenedig rydych wedi'i gael ynglŷn â'r anghytundeb, copi o'r penderfyniad yng Ngham 1 a chopi o'r hysbysiad ysgrifenedig cyntaf a gawsoch chi.**

Ar y ffurflen hon gallwch egluro pam eich bod yn anfodlon â'r penderfyniad ac yn dymuno i'r awdurdod gweinyddu ei ailystyried.

Wedi ichi lenwi eich ffurflen Cam 2, anfonwch hi i **pensiynau@siryfflint.gov.uk** neu drwy'r post i Gronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF.

Yr unigolyn penodedig isod sydd fel arfer yn ymdrin â Cham 2 ar ran Swyddog Monitro Cyngor Sir y Fflint:

**Steven Goodrum: Cyngor Sir y Fflint**

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr unigolyn penodedig ar gyfer Cam 2 yn ailystyried eich achos ac yn adolygu rheolau'r cynllun a ffeithiau eich achos unwaith eto. Efallai y bydd arno hefyd angen eich holi chi neu'ch cyflogwr am ychwaneg o fanylion i'w helpu i ddeall yr anghydfod.

Dylai'r unigolyn penodedig Cam 2 ymateb ichi'n ysgrifenedig cyn pen **dau fis** wedi derbyn eich ffurflen Cam 2. Bydd yr ymateb hwnnw'n cynnwys naill ai:

- ei benderfyniad i gadarnhau neu wyrdroi penderfyniad unigolyn penodedig Cam 1, neu
- eglurhad o'r rhesymau dros unrhyw oedi a gwybodaeth am bryd y cewch chi benderfyniad

# Beth ellir ei apelio?

Wrth ichi ymaelodi â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, gwneir amryw o benderfyniadau ynghylch eich aelodaeth. Eich cyflogwr sy'n gwneud rhai o'r penderfyniadau hynny (neu'ch cyn-gyflogwr os nad ydych yn talu cyfraniadau i'r Cynllun mwyach), a'r awdurdod gweinyddu sy'n gwneud rhai eraill. Cyngor Sir y Fflint yw Awdurdod Gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd.

Os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â phenderfyniad y mae'ch cyflogwr, cyn-gyflogwr neu'r awdurdod gweinyddu wedi'i wneud, dylech holi'r penderfynwr yn gyntaf er mwyn sicrhau bod y penderfyniad yn seiliedig ar wybodaeth gywir. Pan gewch chi hysbysiad o benderfyniad, darperir manylion cyswllt fel bod modd ichi godi unrhyw amheuon sydd gennych. Dylai'r hysbysiad hefyd gynnwys manylion ynglŷn â'ch hawliau apelio dan reolau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

## Mathau o benderfyniadau gan yr awdurdod gweinyddu

- gwasanaeth / cyflogaeth yr unigolyn yn y gorffennol
- cyfrif cyfnodau ychwanegol fel aelodaeth neu gredydu pensiwn ychwanegol
- symiau unrhyw fuddion pensiwn neu ad-dalu cyfraniadau i aelodau yn ôl eu hawliau dan reolau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

## Mathau o benderfyniadau cychwynnol gan gyflogwyr

- cymhwysedd i fod yn aelod
- cyflog pensiynadwy neu gyflog terfynol
- cyfradd cyfraniadau'r gweithiwr
- hawl i fuddion pensiwn pan ddaw aelodaeth i ben
- hawl i ryddhau buddion pensiwn yn gynnar
- yr holl benderfyniadau lle mae rheolau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn datgan: "Rhaid i gyflogwr cynllun yr unigolyn benderfynu unrhyw ddadl ynghylch unrhyw fater arall sydd a wnelo â hawliau neu rwymedigaethau'r unigolyn dan y Cynllun."

# Beth na ellir ei apelio?

Os nad yw eich apêl yn bodloni unrhyw rai o'r meini prawf uchod, ni fydd gennych hawl i apelio drwy'r Weithdrefn.

Nid yw bod yn anfodlon â phenderfyniad yn rheswm teilwng dros wneud apêl. Mae'n rhaid i chi nodi'n bendant pam eich bod o'r farn eich bod yn bodloni'r meini prawf dan reolau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu fod rheswm dros ystyried tystiolaeth newydd.

## Pwy all gyflwyno ffurflen drwy'r Weithdrefn?

Gall unrhyw aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gyflwyno ffurflen drwy'r Weithdrefn (p'un a ydych chi'n dal i dalu cyfraniadau neu beidio). Mae'r rhain hefyd yn medru cyflwyno ffurflenni:

- gwragedd gweddw
- gwŷr gweddw
- partneriaid sifil sydd wedi goroesi
- partneriaid a fu'n cyd-fyw sydd wedi goroesi
- dibynyddion aelod sydd wedi marw
- darpar aelodau
- cyn-aelodau

## A ganiateir i rywun wneud cwyn ar fy rhan?

Gallwch ofyn i rywun arall gyflwyno eich cwyn ar eich rhan. Gallant fod yn swyddog undeb llafur, swyddog lles, cymar, partner neu ffrind, er enghraifft.  Bydd yn rhaid ichi roi awdurdod ysgrifenedig i'r unigolyn a ddewiswch chi weithredu ar eich rhan.

Os yw'r ymgeisydd dan y Weithdrefn yn marw, yn methu â gweithredu dros eu hunain neu'n colli'r gallu i wneud, neu'n iau na 18 oed, gall cynrychiolydd personol, aelod o'r teulu, neu rywun arall sy'n addas ymgymryd â'r cais ar ran yr ymgeisydd.

## Pa rym sydd gan benderfyniad cynrychiolydd y Weithdrefn?

Mae rhywun penodedig (a elwir hefyd yn gynrychiolydd y Weithdrefn) yn ystyried pob achos a gyflwynir.  Mae penderfyniad yr unigolyn penodedig yn derfynol ac yn rhwymo'r cyflogwr neu'r awdurdod gweinyddu, oni bai eich bod yn cyfeirio penderfyniad yr unigolyn penodedig at yr awdurdod gweinyddu i'w adolygu fel apêl Cam 2.

Yr unig eithriad i hynny yw penderfyniad eich cyflogwr neu awdurdod gweinyddu ynglŷn â chŵyn sydd a wnelo â disgresiwn naill ai'r cyflogwr neu'r awdurdod gweinyddu. Mewn achos felly, os nad yw'r unigolyn penodedig yn cadarnhau'r penderfyniad, rhaid cyfeirio'r mater yn ôl at y corff a wnaeth y penderfyniad i'w ailystyried.

**Sylwer:** Os yw'r penderfynwr hwnnw'n gyn-gyflogwr nad yw bellach yn gyflogwr yn y Cynllun, dylid cyfeirio apeliadau at Gronfa Bensiynau Clwyd.

## Oedi neu ddiffyg penderfyniad ar gyfer yr achwynydd

Os dymunwch apelio ynglŷn ag oedi neu ddiffyg penderfyniad ynglŷn â'ch cwyn, dylech gysylltu â'r corff perthnasol (eich cyflogwr neu'r awdurdod gweinyddu) yn y lle cyntaf. Os penderfynir y bu camweinyddu, mae gan y cyflogwr neu awdurdod gweinyddu'r grym i ddyfarnu unrhyw iawndal am unrhyw golled rydych wedi ei ddioddef.

## Pwerau dewisol

Os arferwyd grym dewisol i wneud penderfyniad a'ch bod yn anghytuno â'r penderfyniad hwnnw, byddai'ch cwyn yn mynd drwy ddau gam arferol y Weithdrefn. Mewn achos felly, nid yw'r unigolyn sy'n adolygu'r anghydfod yn gyfrifol am wyrdroi'r penderfyniad gwreiddiol ond yn hytrach am sicrhau yr arferwyd y grym dewisol yn rhesymol. Os bernir na wnaethpwyd hynny, dylid ailystyried yr achos yn y dull priodol.

## Gwybodaeth am ymddeol oherwydd afiechyd

Os oes a wnelo'ch cwyn ag ymddeol oherwydd afiechyd, dylech fod yn bendant ynghylch beth yn union rydych yn apelio yn ei erbyn cyn dechrau proses y Weithdrefn.

Ni chaniateir i'ch meddyg neu ymgynghorydd ysbyty farnu a ydych yn gymwys i ymddeol oherwydd afiechyd. Gellir defnyddio tystiolaeth feddygol ganddynt, fodd bynnag, i helpu'r Ymarferydd Meddygol Cofrestredig Annibynnol wrth lunio barn.

### Penderfyniadau cyflogwyr

Os ydych eisiau apelio yn erbyn y penderfyniad i beidio â dyfarnu ymddeoliad ar sail afiechyd i chi, yna bydd hyn yn apêl yn erbyn eich cyflogwr gan fod hwn yn fater cyflogaeth. Fodd bynnag, anfonwch eich ffurflen gais IDRP yn uniongyrchol at Gronfa Bensiynau Clwyd. Byddwn ni'n rheoli'r broses IDRP i chi.

Yn yr un modd, os ydych wedi eich diswyddo o'ch gwaith a bod eich cyflogwr wedi penderfynu peidio â dyfarnu buddion pensiwn ar sail afiechyd, gallwch apelio yn erbyn y penderfyniad drwy'r Weithdrefn os rydych yn anghytuno ag ef.

Os nad ydych yn fodlon bod yr Ymarferydd Meddygol Cofrestredig Annibynnol wedi ystyried yr holl dystiolaeth feddygol yn llawn wrth lunio barn derfynol, dylech siarad â'ch cyflogwr ynglŷn â dewisiadau eraill cyn ystyried y Weithdrefn.

### Penderfyniad yr Awdurdod Gweinyddu

Gallwch ddefnyddio'r Weithdrefn i apelio yn erbyn yr awdurdod gweinyddu os ydych yn anghytuno â'r buddion pensiwn a ddyfarnwyd ar sail afiechyd.

## Cysylltu â Chronfa Bensiynau Clwyd

| | |
|---|---|
| **Ffôn:** | 01352 702875 |
| **E-bost:** | **pensiynau@siryfflint.gov.uk** |
| **Cyfeiriad:** | Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF |
| **Gwefan:** | **https://cronfabensiynauclwyd.org.uk** |

# Cael cymorth o’r tu allan gan gyrff eraill

## HelpwrArian

I gael gwybodaeth gyffredinol a chyngor ynglŷn â’ch pensiwn, cysylltwch â HelpwrArian:

**Cyfeiriad:** Money and Pensions Service, 120 Holborn, Llundain, EC1N 2TD

**Ffôn:** 0800 011 3797

**Gwefan:** **https://www.moneyhelper.org.uk/cy/pensions-and-retirement**

## Yr Ombwdsmon Pensiynau

Gall yr Ombwdsmon Pensiynau ymchwilio i unrhyw fath o anghytundeb ynglŷn â’ch pensiwn cyhyd â bod llai na thair blynedd wedi mynd heibio ar ôl i’r anghytundeb gwreiddiol godi. Mae’n annhebygol y bydd yr Ombwdsmon Pensiynau’n ymdrin ag unrhyw achos penodol nes y cwblheir Camau 1 a 2 o’r Weithdrefn Datrys Anghydfodau Mewnol.

Efallai, serch hynny, y gall yr Ombwdsmon Pensiynau ddechrau ymdrin â’r achos tra bod y Weithdrefn Datrys Anghydfodau Mewnol yn mynd rhagddi, os ydych yn cwyno am y ffordd yr ymdrinnir â’r achos. Mae penderfyniad yr Ombwdsmon Pensiynau yn derfynol ac yn rhwymol. Ni ellir ymchwilio i faterion lle mae achos cyfreithiol eisoes wedi’i gychwyn.

Dyma fanylion cyswllt yr Ombwdsmon Pensiynau:

**Cyfeiriad:** 10 South Colonnade, Canary Wharf, Llundain, E14 4PU

**Ffôn:** 0800 917 4487

**E-bost:** **enquiries@pensions-ombudsman.org.uk**

**Gwefan:** **https://www.pensions-ombudsman.org.uk/cymraeg**

Cronfa Bensiynau
# CLWYD
Pension Fund

**cronfabensiynauclwyd.org.uk**

**Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF**

Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd ac rydym ni'n defnyddio eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaeth gweinyddu pensiynau i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data, gyda phwy rydym yn ei rannu, a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch data, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan.